# y dinesydd

Rhagfyr/Ionawr 1999/2000 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 251

## Byd Islaw'r Bont




I ddathlu pen-blwydd Ysgol Gyfun Glantaf yn 21oed eleni llwyfannwyd gwaith unigryw ac arbennig 'Byd Islaw'r Bont'. Comisiynwyd Emyr Edwards ac Eirlys Gravelle, y naill i lunio'r sgript a'r llall i gyfansoddi'r gerddoriaeth, a llwyddodd y ddau i greu sioe liwgar a chofiadwy iawn.

Seiliwyd y ddrama-gerdd ar fywyd pobl yn ardaloedd dociau Caerdydd yn ystod y can mlynedd diwethaf, ac ar y digwyddiadau cymdeithasol a hanesyddol a fu'n gefndir i'r bywyd hwnnw. Gwelwyd sut y datblygodd porthladd Caerdydd i fod yn un o borthladdoedd mawr y byd gyda'r cynnydd ym mhoblogaeth forwrol, fasnachol a diwydiannol Tre-biwt a 'Teigar Be'. Gwelwyd hefyd y dirywiad yng ngweithgareddau'r porthladd oherwydd y dirwasgiad a'r newid yn y gymdeithas yn sgil moderneiddio a datblygu cynllun y Bae.

Cafwyd cip ar fywydau trigolion megis Mrs Pine Siop Chips, Tomi Pysgod, Mrs Lawrence a Madame y Cordon Bleu gan brofi hiwmor, trasiedi, problemau, hapusrwydd, adloniant a dioddef bywyd bob dydd. Fe'n tywyswyd yn gelfydd trwy olygfeydd y ddrama-gerdd gan ddau lais (neu ddwy ddraig) a symudodd yn llithrig o gwmpas y llwyfan gan ddod â'r digwyddiadau'n fyw o flaen ein llygaid.


Tomos Lewis (Llais 1)

Llwyfannwyd pedwar perfformiad ysgubol gan y cast enfawr o Flwyddyn 8 i 13 a gwelwyd talentau amrywiol y disgyblion wrth iddynt arddangos hunanddisgyblaeth a hunan-hyder cyhoeddus, y ddawn i gyd-weithio mewn tîm a'r argyhoeddiad eu bod yn mwynhau pob munud.

Rhaid canmol y tîm ymroddgar a thalentog o athrawon a fu wrthi'n cynhyrchu a llwyfannu'r sioe gan roi i'r disgyblion y cyfle i brofi gwefr perfformiadau cyhoeddus. Rhaid diolch hefyd i'r band a fu'n cyfeilio y tu ôl i'r llenni mewn ffordd hynod o broffesiynol. Yn sicr roedd y sioe yn ddathliad pen-blwydd teilwng iawn.


Mrs Pine (Bethan Lewis) a rhai o gast 'Byd Islaw'r Bont'.

# Y Dinesydd

**Rhag./Ion. 99/00, Rhif 251.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Chwefror at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 24 Ionawr:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Heol y Bont, Ystum Taf, Caerdydd (Ffôn: 333090).
**Newyddion Ysgol Plasmawr:** Ms Rhian Morgan, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ffordd Pentre-baen, Tyllgoed, Caerdydd (Ffôn: 405499).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol a newyddion cyffredinol at:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ. (Ffôn: 628754) **neu** Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 01222-418270)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 404906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................

................................................ Cod Post: ..................

Rhif Ffôn: ...................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................


................................................ Cod Post: ..................

Rhif Ffôn: ...................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 13** **Rhag./Ion. 1999/00**



**Ar Draws**

1. 'Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac __ - _____ tangnefedd, i ddynion ewyllys da' (Luc) (2,1,5)
7. 'Y Cadarn ddaeth o _____ Y Deddfwr gynt ar Seina' (Eos Iâl) (5)
8. Yn anhysbys daw newydd i'n drysu (2,5)
9 (ac 16 i lawr). ' a hwy a alwant ei enw ef _____, yr hyn o'i gyfieithu yw, Duw ____ __) (Mathew) (7,4,2)
10. Dangos anfodlonrwydd wrth ddechrau gweld wfftio gallu'r unigolyn (4)
12. Gorchudd yn dilyn yn hollol y chwarae ar y cwrt (7)
14. Tragwyddol, nid fel 15 (7)
17. A mwy nag un bwlch (4)
18. Och! Ais lu wedi torri ond yn llesol i'r iechyd (7)
21. Cefnu ar Bala a map anghyflawn am rywle yn yr Amerig (7)
22. Sarff er nid yn droellog (5)
23. 'Tua Bethlem dref Awn __ _______ gref ' (Wil Ifan) (2,6)

**I Lawr**

1. Hyfforddi mewn lladd ysguthanod (6)
2. Mynegi amheuaeth cyn y dydd ga'i esbonio y ffordd i ymddwyn (8)
3. Hollt? Nage, wedi torri (4)
4. Daw sêr ffrwydrol i'r ailadroddiad (6)
5. Gefell blewog yn y maes aur (4)
6. Rhestr o flaen Lenny bach (6)
7. Bwrw eira ar y grawn i wneud diod (7)
11. Ail ferch o'r Gogledd ac Ur heb fod a chwaeth melys (4,3)
13. Clun Taid yn methu â'i gario (8)
14. 'Gan hyddysg gyhoeddi fod Crist wedi'i eni, Mawr ydyw ____ Duw Iôr' (Siôn Ebrill) (6)
15. Ysgerbwd y Sbaeneg mewn amgylchiadau gwych (6)
16. gweler 9 ar draws
19. Edrych yn rhannol am y meddw (4)
20. Mae'n swnio fel petai hon yn chwalu popeth! (4)

**Atebion Croesair 12**

**Ar Draws:** 2. Rhosod; 5. Traw; 7. Barf; 8. Gwirioni; 9. Drygioni; 11. Sarn; 12. Does gyflwr dan; 15. Rhaid; 17. Guto Ffowc; 19. Tân gwyllt; 21. Dadl; 22. Mudo; 23. Oesol.

**I Lawr:** 1. Gwawrio; 2. Rhif; 3. Siglo; 4. Deifiol; 5. Tri; 6. Anner; 10. Gosod; 11. Seraff; 13. Ysgwyddo; 14. Anwadal; 16. Addasu; 18. Tatws; 20. Gro; 21. Dol.

**Croesair Rhif 12**

Dim ond wyth ymgais a dderbyniwyd y tro hwn. Roedd pump ohonynt yn hollol gywir. Bydd y tocyn llyfrau yn mynd at Megan Griffiths, 3 Long House Close, Llys-faen, Caerdydd. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Gwenda Hopkins, Llanisien; Carys Humphreys, Bangor; Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd, a Huana Simpson, Y Bont-faen.

**Cystadleuaeth Tachwedd 1999**: Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glan-y-llyn (*Lakeside*), Caerdydd CF2 6DJ, erbyn 24 Ionawr.

Cofiwch ymweld â safle'r *Dinesydd* ar y We:
**http://ds.dial.pipex.com/town/parade/ow12/**

## Calendr y Dinesydd

**Iau, 16 Rhagfyr**
Gwasanaeth Naw Llith a Charol Ysgol Glantaf, yng Nghapel y Tabernacl, Yr Ais, am 7.30 p.m.
**Gwener, 24 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Oedfa Gannwyll yng Nghapel Bethel, Maes-y-deri, am 11.00 p.m.
**Mercher, 5 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: 'Atgofion y Ganrif' gan Howard Spriggs, yn neuadd Eglwys Minny Street am 2.30 p.m.
**Mercher, 5 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur: 'Adweitheg' gan Kay Clement, yn festri Capel y Methodistiaid, Radur, am 7.30 p.m.
**Iau, 6 Ionawr**
Gwasanaeth Carolau yng Nghapel Pen-rhiw, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, am 7.00 p.m.
**Llun, 10 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Sgwrs gan Alun Guy, yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.
**Gwener, 14 Ionawr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs gan Falmai Griffiths, yn neuadd Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.
**Llun, 17 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Dr William Price: Dyn Od.' Sgwrs gan Iwan Jones, yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.
**Llun, 17 Ionawr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Defnyddio Semiogemegion i Reoli Plaon.' Darlith gan Owen Jones ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.
**Mawrth, 18 Ionawr**
Cymrodorion y Barri: Rhaglen nodwedd o dan ofal Mr a Mrs Islwyn Jones, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.
**Mercher, 19 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Peter Robins, yn neuadd Eglwys Minny Street am 2.30 p.m.
**Gwener, 21 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Troi'r Cawl' gan y Parch. Ddr T. J. Davies, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.
**Gwener, 28 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur: Noson Santes Dwynwen, yng Nghlwb Golff Radur, am 7.30 p.m.
**Mercher, 2 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Arthur Bowen, yn neuadd Eglwys Minny Street am 2.30 p.m.
**Gwener, 4 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd: 'Y Cynulliad'. Anerchiad gan Mr Rhodri Morgan, AC, AS, yn neuadd Eglwys y Tabernacl, Yr Ais, am 7.15 p.m.
**Llun, 7 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Clywed a Gweled.' Sgwrs gan Seiriol Davies, yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.
**Gwener, 11 Chwefror**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs gan y Parch. John Rowlands (Ficer Eglwys Fair, Yr Eglwys Newydd), yn neuadd Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.
**Sadwrn, 12 Chwefror**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Cynllunio Car Rasio Fformiwla Un' gan Rhodri Moseley (Aerodeinamegydd Tîm Rasio McLaren), ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.
**Llun, 14 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Noson Ni', yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.
**Mawrth, 15 Chwefror**
Cymdeithas Hanes Cymru Prifysgol Caerdydd: 'Cestyll, Cyllyll a Chywyddwyr: Ymateb y Beirdd i Fethiant Gwrthryfel Glyndŵr.' Darlith gan Dylan Foster Evans yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.15 p.m. Croeso cynnes i bawb.
**Mawrth, 15 Chwefror**
Cymrodorion y Barri: Darlith ar Gwilym R. Jones gan y Parch. W. I. Cynwil Williams, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.
**Mercher, 16 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan y Parch. Maxwell Evans, yn neuadd Eglwys Minny Street am 2.30 p.m.
**Gwener, 18 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Nofelau Merched yng Nghymru'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg' gan yr Athro Jane Aaron, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

*Er mwyn cynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at:*
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 628754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

### Yoga yn Gymraeg

Cynhelir dosbarthiadau yoga/ymlacio yn y Gymraeg yn Ysgol Pen-cae, Llandaf am 7.30 p.m. ar nosweithiau Llun o 10 Ionawr ymlaen. Am fanylion pellach, cysylltwch â Mair Owen, 43 Highfields, Llandaf (Ffôn: 564574).

### Diolch am Roddion

Diolch i Gylch Cinio y Barri a'r Fro ac Eglwys Minny Street am eu rhoddion tuag at gynnal *Y Dinesydd*. Fe'u gwerthfawrogir yn fawr.

### Ysgol Bod Alaw

Bydd Ysgol Bod Alaw, Bae Colwyn, yn dathlu hannercanmlwyddiant ei sefydlu gyda diwrnod agored ar 1 Mawrth 2000 a phenwythnos o ddathlu ym mis Mehefin. Os bydd cyn-ddisbyblion neu gyn-aelodau o'r staff am gael rhagor o wybodaeth, dylent gysylltu â Delyth Jones, Ysgol Bod Alaw, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, Conwy LL29 7ST.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

### Cydymdeimlwn

- â Cathi Jones a'r teulu, gynt o Lanisien ond bellach yn byw yng Nghricieth, ar farwolaeth ei gŵr Cyril Onllwyn Jones ar 15 Tachwedd. Bu Cathy yn dysgu yn Ysgol Llanhari tan ei hymddeoliad.
- â Lynwen Rees a'r teulu, ar farwolaeth sydyn ei thad Aelwyn Thomas, Penarth ar 29 Tachwedd. Mae Lynwen yn dysgu yn Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd.

### Llongyfarchiadau

- i Geinor Jones ac Owain Pennar ar eu priodas.
- i Dr Geraint Morris ar gael ei apwyntio i swydd darlithio yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Cymru.
- i'r Parch. Gwynn Williams, gweinidog Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd, ar gyhoeddi ei gyfrol *Ennill Cymru i Grist*.
- i John Hines ar gael ei ddyrchafu'n Athro yn Ysgol Hanes ac Archaeoleg Prifysgol Caerdydd ac i Christine Trevett ar gael ei dyrchafu'n Ddarllenydd yn yr Adran Astudiaethau Crefyddol.
- i Aled a Ruth Williams, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*) ar enedigaeth eu cyntafanedig, Elwyn Siôn, ar 8 Hydref. Mae Gerald ac Elisabeth Davies, Rhiwbina, yn dad-cu a mam-gu bellach!
- i Sara Williams, merch Euryn a Jeni Ogwen, Y Barri, ar ei phriodas â Paul Hunter yng Nghapel Ebeneser, Heol Siarl ar 19 Tachwedd. Cynhaliwyd y neithior yng Ngwesty Dewi Sant yn y Bae a threuliwyd y mêlrawd ym Malaysia.
- i Ffion Hague, gynt o Riwbina, ar ei swydd newydd gyda Chwmni Leonard Hall International yn Llundain. Bydd yn dechrau ar ei gwaith newydd yn Chwefror.

## Rheilffyrdd

Yn ystod y misoedd nesaf bydd HTV yn paratoi cyfres deledu o'r enw 'Cledrau Coll' ar gyfer S4C. Bydd y gyfres yn mynd â ni am dro ar hyd olion rhai o reilffyrdd coll Cymru. Os oes gennych unrhyw straeon, atgofion neu hen luniau yn gysylltiedig â'r rheilffordd yn eich ardal byddai cynhyrchydd y gyfres, Arfon Haines Davies, yn falch o glywed oddi wrthych. Ffoniwch Arfon ar 01222 590626 neu cysylltwch drwy lythyr: HTV, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 6XJ.

## Ysgrifennu Drama Fer

Thema Cystadleuaeth Cyfansoddi Drama Cymdeithas Ddrama Cymru eleni yw 'Eilunod Syrthiedig'. Disgwylir i ymgeiswyr lunio drama fer rhwng 20 a 50 munud o ran hyd, a gwobrwyir mewn sawl categori, megis 'y ddrama orau ar gyfer merched', 'yr awdur gorau dan 25 oed', ayb. Y dyddiad cau yw 31 Ionawr. Am ragor o fanylion, cysylltwch â Fflur Herbert ar 01554-772000.

## Gwobr i Dractor

Llongyfarchiadau i Gwmni Teledu Apollo, sydd â'i bencadlys yn Heol y Gadeirlan, ar dderbyn gwobr deledu Bafta (Prydain ac America) yn ddiweddar am raglen feithrin, sef 'Tomos y Tractor'. Dyma'r rhaglen Gymraeg gyntaf erioed i ennill gwobr Bafta (Prydain). Cafodd ei hisdeitlo er mwyn i'r di-Gymraeg ddeall yr hyn oedd yn digwydd. Mae'n rhaglen boblogaidd dros ben gan blant meithrin ac mae rhagor o'r gyfres yn cael ei recordio ar hyn o bryd. Mae'r rhaglen yn cael ei gwneud ar fferm ym Mro Morgannwg.

## Patagonia, Bryn Fôn a Chwpan y Byd

Nos Wener, 12 Tachwedd, cafwyd dwy sgwrs am Batagonia yn y ddinas, un gan Geoff Wright ar gyfer rhieni a chyfeillion Ysgol Pen-cae a'r llall gan Gwilym Roberts yng nghyfarfod Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd.

Yn ystod mis Tachwedd bu saith o bobl o Ddyffryn Chubut a'r Andes yn y ddinas yn dilyn cwrs hyfforddi tiwtoriaid Cymraeg dan arweiniad Dr Robert Owen Jones a'i staff yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg yn 42 Plas y Parc. Bu un ohonynt, sef Carlos Blasetti o'r Gaiman yn y Stadiwm Genedlaethol yn gwylio'r gêm rygbi rhwng Ariannin a Siapan ac aeth â phoster mawr ganddo â'r geiriau "Helo Gaiman. Sut mae?" arno. Er na welwyd y poster ar ein sgrinau teledu yng Nghymru, yn ôl y sôn fe'i gwelwyd yn Ariannin, Awstralia a Hwngari!

Bryn Fôn a'r Band oedd yr adloniant yng Nghlwb Ifor Bach noson y gêm derfynol rhwng Awstralia a Ffrainc yn y Stadiwm Genedlaethol a chafwyd noson hwyliog iawn a'r Clwb dan ei sang yn dathlu diwedd cystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd.



*Tu ôl: Trystan Coe, Steffan Shaw, Geraldine Davies; Tu blaen: Sam Bowen, Olivia Shaw.*

## Sgïo yn Llangrannog

Uchod mae llun y tîm o Ysgol Melin Gruffydd a fu'n llwyddiannus yng Nghystadleuaeth Pencampwriaeth Sgïo Ysgolion Cymru ddechrau mis Hydref. Steffan Shaw yw'r bachgen cyflymaf yng Nghymru ar y 'piste'! Daeth Geraldine Davies yn drydydd yng nghystadleuaeth y merched. Cawsant fedalau unigol a tharian anferth i'r tîm. Llongyfarchiadau calonnog iddynt!



## Criw Ieuengaf y Dathlu

Dyma lun o'r criw ieuengaf yn y cinio i ddathlu hannercanmlwyddiant addysg gynradd Gymraeg yng Nghaerdydd yn Neuadd y Ddinas ym mis Medi. Yn ôl Siân Parry-Jones, a anfonodd y llun atom: 'Ni oedd y criw ieuengaf yn y cinio, wedi mynychu Ysgol Bryntaf o tua 1966/67 hyd 1973. Miss Morris oedd athrawes gyntaf y rhan fwyaf ohonom (ac rwy'n credu mai ni oedd ei disgyblion cyntaf hi), yn y cabanau yn yr ysgol yn Highfields. Roedd Edward Morris Jones yn athro i ni yn Safon Tri, pan oedd yr ysgol yn adeilad Viriamu Jones yng Ngabalfa.'

*Rhes flaen: Angharad Jones, Nest Evans, Edward Morris Jones, Gareth Humphreys; Rhes ganol: Siân Parry-Jones, Marian Lewis, Gwenda Lewis, Eryl Thomas ('Miss Morris'); Rhes gefn: Huw Phillips, Meurig Evans, Dafydd Saer, Huw Jenkins.*

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## EGLWYS DEWI SANT

Roedd wythnos olaf mis Hydref yn wythnos o lawenydd mawr i aelodau Eglwys Dewi Sant ac yn sicr i aelodau holl eglwysi Cymraeg y Brifddinas fel ei gilydd. Ddydd Mercher, 27 Hydref, cyhoeddwyd mai cyn-ficer Dewi Sant, yr Hybarch Saunders Davies, Archddiacon Meirionnydd, oedd wedi ei benodi yn Esgob Bangor. Ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau iddo ef a Cynthia wrth iddynt symud i Dŷ'r Esgob ym Mangor ym mis Ionawr.

Yna ddydd Sadwrn, 30 Hydref, ein llawenydd eto oedd croesawu un o Esgobaeth Bangor, y Parchedig Meurig Llwyd Williams, Ficer Pwllheli ac Abererch, i fod yn ficer newydd Eglwys Dewi Sant. Braf oedd cael cwmni nifer o blwyfolion Pwllheli yn y gwasanaeth am hanner awr wedi un; hyfryd hefyd oedd cael y cyfle i groesawu Esgob newydd Llandaf a chyn-Esgob Bangor, y Gwir Barchedig Barry Morgan. Hwn oedd ei wasanaeth sefydlu a gosod cyntaf ers trosglwyddo i Landaf, ac yntau yn Esgob Bangor wedi sefydlu Meurig ym Mhwllheli yn 1993. Pleser hefyd oedd cael cwmni teulu Meurig, ei dad a'i fam, y Parchedig a Mrs Ifor Llwyd Williams, a'i frawd, Dewi Llwyd.

## MINNY STREET, CAERDYDD

Mae'r Gymdeithas bellach yn cyfarfod yn rheolaidd bob pythefnos ac eisoes ym mis Tachwedd cafwyd dwy noson gofiadwy. Gyda chymorth yr Academi, cafwyd cyfle ddechrau'r mis i wrando ar y Prifardd Emyr Lewis yn rhoi ychydig o gefndir y dilyniant o gerddi buddugol yn Eisteddfod Bro Ogwr: 'Rhyddid'. Daeth cynulleidfa niferus ynghyd, a da oedd gweld nifer o gyfeillion o eglwysi Cymraeg y ddinas yn ymuno i gael blas arbennig ar Emyr Lewis yn mynd drwy'r dilyniant bob yn gerdd. Mor bwrpasol oedd cynnal y noson hon yn Minny Street a chynifer o'r cerddi yn gysylltiedig ag ardal y Waun Ddyfal.

Bythefnos yn ddiweddarach, noson lwyddiannus arall yng nghwmni aelodau Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Mae'r noson hon bellach yn rhan o draddodiad y Gymdeithas ac unwaith eto eleni cafwyd orig arbennig yng nghwmni'r myfyrwyr o bob oed. Diolch i'r Athro Sioned Davies am osod y rhaglen at ei gilydd a diolch i'r Adran oll, yn offerynwyr, cantorion, llefarwyr a chefnogwyr am roi o'u hamser a'u doniau i'n difyrru.

## BETHEL, RHIWBINA

Mae'r cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal ym Methel, Maes y Deri, ar foreau Mawrth yn llwyddiannus iawn. Diolch i'r Gweinidog, y Parchg Evan Morgan am eu trefnu. Astudiaethau Beiblaidd sy'n cael eu cynnal yn bennaf ond hefyd boreau coffi ac o dro i dro mi awn allan am bryd o fwyd. Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni am hanner awr wedi deg ar foreau Mawrth.

Fe aeth nifer o aelodau Bethel i Eglwys y Plwyf, Cydweli, 20 Hydref, i Oedfa o Ddiolchgarwch am fywyd y Parchg William Davies a fu'n genhadwr yng Nghymru a Sierra Leone. Ef, ynghyd â'r Parchg Edward Jones, fu'n gyfrifol am sefydlu Wesleaeth Gymraeg yng Ngorllewin Cymru. Ar ôl y gwasanaeth, dadorchuddiwyd carreg goffa i'r Parchg William Davies ym mynwent yr Eglwys gan y Parchg Stuart Burgess, Llywydd y Gynhadledd Fethodistaidd.

## EGLWYS Y CRWYS - gweler tud. 8.

## Carol Plygain, i'w chanu ar Dôn y Ceiliog Du

Diolchwn i Mrs Ann Saer, Llandaf, am anfon y garol isod atom, a gafodd yn ei thro gan Dr Meredydd Evans. Ei gobaith hi, a ninnau, yw y bydd 'yn rhywbeth "newydd" ar gyfer plygeiniau lleol' cylch Caerdydd. Daw'r geiriau o lyfr Robert Davies, Treffynnon, *Cnewyllyn mewn Gwisg* (1798).



1. O bob rhyw fore, er byd yn fyd,
   Dyma'r bore gore i gyd;
   Bore o hedd ymgeledd gu,
   A chodi o'r dwfn bechadur du;
   Bore llawen, seren sail,
   Ni bu erioed un bore o'i ail;
   Angylaidd gôr roes fawl ddi-gudd,
   Cantorion da, cyn torri'r dydd.

2. Yn ddydd hi ddaeth i'r caeth eu cri,
   Y gair yn gnawd a wnawd i ni;
   Daeth 'Bydded golau'r dyddiau du' -
   O'r glanaf air! - a g'leuni fu;
   Er cwympo Dyn, heb ronyn rym,
   Yn bell i dwyll heb allu dim,
   O'i wreiddyn drwg oedd lawn o dra,
   Bu'r gair yn dwyn blaguryn da.

3. A da yw'r newydd dirion wawr,
   Oen yw i ni ei eni nawr;
   Ef oedd y gŵr rhyfedda' gawd!
   Yn fab i'w ferch, yn dad i'w gnawd!
   Cywreinia' saer mewn coron serch,
   Yn hŷn na'i fam, yn iau na'i ferch,
   Yn fud ran oed, heb fedru un iaith,
   Yn llenwi'r nef oll ar un waith.

10. Mewn hyder awn at orsedd gras,
    Gorchfygodd Iesu'n gelyn cas;
    Er angau'n wir ni fyddir waeth,
    I'w ga'lyn ef ei golyn aeth;
    Ymlaen fel cu forwynion call
    Ag olew pur yn gole heb ball;
    Ffydd, cariad, gobaith, llwynwaith llawn,
    Amen yn Nuw am hynny'n iawn.

A dyma gerddoriaeth addas ar ei chyfer:

**Cân y Droell Bach**



# Cofio Gwyn Lewis Davies
## ('Ap Lewsyn'; 1906-99)

*Cafodd bywyd Cymraeg Caerdydd golled fawr ym marwolaeth Mr Gwyn Lewis Davies. Dan y ffugenw 'Ap Lewsyn' cyfrannodd groeseiriau i'r* Dinesydd *am ddwy flynedd ar bymtheg; yn ogystal, bu'n aelod ffyddlon o bwyllgor y papur am gyfnod hir. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i'w deulu. Dyma'r deyrnged iddo a draddododd ei gyfaill, Mr E. D. Evans, yn ei angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen (*Thornhill*) ar 4 Tachwedd:*



*Llun: Robin Griffith*

Gofynnwyd i mi gan y teulu i roi hanes gyrfa ein diweddar gyfaill ac i gynnig gwerthfawrogiad o'i fywyd, a hynny a geisiaf ei wneud mor gryno ac mor fyr ag sydd bosibl. Yn rhinwedd y ffaith mai fi, mae'n debyg, sydd wedi dwyn cysylltiad hwyaf â Mr Gwyn Davies o drigolion Caerdydd, y syrthiodd y gorchwyl yma i'm rhan, oherwydd yr oedd ein perthynas yn ymestyn yn ôl cyn ein dyfodiad i Gaerdydd, i'r dyddiau pan oedd ef yn brifathro yn Nhywyn, a minnau'n aelod o'i staff.

Priodol sylwi mai Lewis oedd enw canol Mr Davies, yr un enw â'i dad, Lewis Davies, Cymer Afan, a fu'n brifathro'r ysgol gynradd yno am y rhan fwyaf o'i oes. Yr oedd yn ŵr athrylithgar, yn fardd, yn llenor, yn hanesydd ac yn gerddor, a chymerodd ran flaenllaw yn niwylliant y rhan yma o'r hen Sir Forgannwg. Un o'i gymdeithion oedd y Dr Tom Richards, hanesydd Piwritaniaeth Cymru, a llyfrgellydd Coleg Bangor wedi hynny, ond a oedd ar y pryd yn athro hanes yn Ysgol Maesteg ar ôl cyfnod, gyda llaw, yn athro yn Nhywyn. Cofiaf Mr Gwyn Davies yn rhoi benthyg un o lyfrau'r Doctor Tom i mi, a oedd wedi ei roi yn anrheg i Lewis Davies gan yr awdur, ac ar ei dudalen flaen werthfawrogiad o'r gyfathrach agos a fu rhyngddynt ym mywyd diwylliannol Tir Iarll. Ond, fel awdur llyfrau i blant, ac yn arloeswr yn y maes yma gyda'i nofelau *Lewsyn yr Heliwr*, *Wat Emwnt*, *Daff Owen*, ac amryw lyfrau hanesyddol, y cofir am Lewis Davies ac, yn wir, y mae un o'r posteri lliwgar a gyhoeddir i goffáu ein llenorion, wedi ei gyflwyno i gofio amdano. Felly, mewn awyrgylch hollol Gymraeg, ac mewn dyddiau cyn gweld trai ar yr iaith yng nghymoedd y De, y codwyd Gwyn Lewis Davies, ac fe etifeddodd yn helaeth o ddoniau, diwylliant a diddordebau ei dad, ac fe'u meithrinodd ar hyd ei fywyd.

Wedi derbyn addysg uwch yn Ysgol Aberafan a Choleg Abertawe, cychwynnodd ei yrfa fel athro yn y Rhws, yn y Fro, a thra oedd yno, astudiodd am radd M.Sc. yng Nghaerdydd. Gwyddoniaeth, Ffiseg yn arbennig, oedd ei bwnc, ond er iddo ddysgu disgyblaeth y gwyddonydd, yr oedd ei fryd ar faes llawer ehangach o'r cychwyn. Bu'n gweithio am gyfnod yn Altrincham cyn cael ei benodi'n arolygydd ysgolion dan awdurdod addysg Gorllewin Efrog. Pan oedd galw mawr am athrawon ar ôl y Rhyfel, agorwyd Coleg Brys yn Harrogate ac apwyntiwyd Mr Gwyn Davies yn brifathro arno. Pan gaewyd hwnnw, symudodd i Dywyn yn 1951, yn brifathro'r ysgol uwchradd yno.

Yr oedd tipyn o arlliw ysgolion bonedd Lloegr ar Ysgol Tywyn ers dyddiau Dr Brychan Rees, a fu'n athro yn Manchester Grammar School, ac ni wnaeth ei olynydd, Mr T. V. Davies, fawr iawn yn ystod ei dymor byr fel prifathro i newid y patrwm. I Mr Gwyn Davies y mae'r ysgol yn ddyledus am roi naws mwy Cymreigaidd iddi, a rhoi mwy o le i ddysgu'r Gymraeg, yn enwedig fel ail iaith i'r plant di-Gymraeg. Hyd yn oed ar ôl iddo ymddeol, cadwodd ddiddordeb byw yn yr ysgol a pharhaodd yn Llywydd Cymdeithas y Cyn-ddisgyblion hyd ddiwedd ei oes. Pan oedd yn 91 oed, gyrrodd i fyny i Dywyn yn ei gar i fynychu adùniad y cyn-ddisgyblion.

Ond, roedd ei ddiddordebau'n ymestyn y tu hwnt i'r ysgol i'r gymdeithas - i'r capel, ac yn enwedig i waith cerddorol y dref. Roedd yn gyfaill mawr i John Hughes, brawd Arwel Hughes, a oedd bryd hynny'n drefnydd Cerdd yn Sir Feirionnydd, a bu flwyddyn ar ôl blwyddyn yn dysgu côr yn Nhywyn ar gyfer cyngherddau a drefnai John Hughes mewn gwahanol fannau yn y sir. Nid rhyfedd, felly, fod parch mawr tuag ato o hyd gan hen ddisgyblion a thrigolion y fro yn Sir Feirionnydd.

Tua 1963, ymddeolodd o'i swydd a symudodd ef a Mrs Davies i Gaerdydd, lle yr oeddent eisoes wedi prynu tŷ yn Rannoch Drive. Ond, er newid ei amgylchedd, parhaodd i ddilyn ei ddiddordebau ac i ymdaflu i fywyd a diwylliant Cymraeg y brifddinas. Ymaelododd yn eglwys Ebeneser, bu'n aelod amlwg o'r Clwb Cinio Caerdydd a'r Cylch Llyfryddol. Bu'n weithgar hefyd gyda'r Cymrodorion, ac etholwyd ef yn Llywydd yn 1983, blwyddyn coffáu trichanmlwyddiant geni Griffith Jones, Llanddowror, un o addysgwyr mwyaf Cymru ac, fel addysgwr ei hun, gofalodd Mr Davies ei fod yn cael ei goffáu gyda darlith, y cefais i'r fraint o'i thraddodi. Cofiaf amdano'n dweud ei fod am wneud rhywbeth buddiol ac ymarferol yn ystod ei dymor yn Llywydd y Cymrodorion, a thrwy ei ddycnwch nodweddiadol, llwyddodd i ddarbwyllo'r cwmni a oedd yn datblygu Canolfan Dewi Sant, yn groes i'w polisi arferol, i roi tabled i goffáu hen gapel Ebeneser, sydd â'i lleoliad yn agos i'r lle'r arferai'r sêt fawr fod.

Bu'n gymwynaswr mawr i'r papur bro, *Y Dinesydd*, ac am flynyddau'n ddi-dor bu'n darparu posau croesair i'r misolyn dan y ffugenw 'ap Lewsyn'. Tystia hyn, petai angen tyst, i'w ddiddordebau eang, ei ystorfa helaeth o wybodaeth ac i feddwl ystwyth a disgybledig i gyflawni'r fath waith cyhyd.

Yr oedd ganddo allu eithriadol i addasu i sefyllfaoedd newydd. Wedi marw Mrs Davies, bu'n ymdopi i ofalu amdano ac i gadw'r cartre'n ddestlus. Cofiaf iddo wahodd y wraig a minnau i ginio un hwyrnos, ac fe ddarparodd bryd wedi ei goginio ganddo ef ei hun a wnai gredyd i unrhyw gogydd. Pan symudodd Peter, ei fab, i weithio yn Ynysoedd Môr y De, gwnaeth ei dad y siwrne hirfaith i ymweld ag ef dair gwaith, y tro olaf pan oedd yn 90 oed.

Nid oedd yn cydnabod rhwystrau, ond bob amser yn gweld cyfle. Cofiaf amdano'n fy nghynghori i geisio am ryw swydd gan ddweud pe methwn y byddai drws yn siŵr o agor yn rhywle. Gweld drysau'n agor yn hytrach nag yn cau a wnaeth ar hyd ei oes.

Cafodd oes hir, buddiol a diddorol, ac fe sylweddolodd lawer o'i fwriadau a'i amcanion. Mwynhaodd fywyd teuluol hapus a chartref cysurus ac yn ystod ei wendid yn ei fisoedd olaf, cafodd bob ymgeledd gan ei blant, Morfudd a Peter, yn ei gartref ei hun. Cadwodd ei gyneddfau'n heini hyd y diwedd bron. Beth ychwaneg all dyn ei ddeisyfu o fywyd? Ac yr oedd ein cyfaill yn ddiolchgar am bob peth a ddaeth i'w ran. Braint yw cael talu hyn o deyrnged iddo.

**E. D. Evans**

# YSGOL GLANTAF

## Profiad Gwaith yn yr Almaen

Trefnwyd profiad gwaith yn Bergneustadt yn yr Almaen am yr ail waith ym mis Hydref eleni. Dyma gyfle unigryw i wella sgiliau ieithyddol a chael mewnwelediad i ddiwylliant y wlad tra'n dysgu sgiliau fydd yn angenrheidiol yn ein gyrfaoedd yn y dyfodol.

Fe dreuliais i bythefnos gyda milfeddyg - profiad hynod o bleserus a buddiol. Ni chefais lawer o anawsterau ieithyddol ond fe ddysgais lawer o dermau arbenigol newydd. Cefais y cyfle nid yn unig i arsylwi ond i gymeryd rhan allweddol yn helpu'r milfeddyg a'r anifeiliaid.


*Eleri James, Siân Thomas a Catrin Thomas*

Gweithiodd Catrin Thomas mewn swyddfa cyfreithiwr ac aeth Eleri James a Lucy Jennings i weithio mewn ysgolion cynradd. Cytunodd pob un ein bod wedi mwynhau ac elwa o'r profiad gwerthfawr yma. Dyma'r ffordd orau i adolygu ar gyfer Safon A Almaeneg.

**Siân Thomas**

## Brwydr yr Amgylchedd


Caniau pop, pacedi creision, pacedi brechdanau, papur losin, côniau sglodion - dyma'r pla sy'n heintio ein hamgylchedd, gan gynnwys amgylchedd Ysgol Glantaf. Yn dilyn arolwg manwl gan ddisgyblion Blwyddyn 7 penderfynwyd ymuno ag ymgyrch Eco-Ysgolion gyda'r bwriad o wella'n sylweddol amgylchedd yr ysgol.

*Dyma ran o'r adroddiad gan ddisgyblion Blwyddyn 7:*

Rydym wedi bod yn astudio'r amgylchedd fel rhan o'n gwersi Daearyddiaeth. Trwy wneud hyn, rydym wedi darganfod bod llawer o sbwriel o gwmpas cyffiniau'r ysgol. Y prif reswm am hyn yw fod mwyafrif disgyblion yr ysgol yn tueddu i fod yn ddiog ac yn gollwng eu sbwriel ar y llawr. Ar ôl gweld yr holl sbwriel aethom i'r ystafell ddosbarth i drafod y mater. Yn dilyn y drafodaeth darganfuom fod llawer o resymau dros yr holl sbwriel.

Dyma rai enghreifftiau:
1) Angen mwy o finiau;
2) Sbwriel yn chwythu i mewn o'r tu allan i'r ysgol;
3) Pobl o'r tu allan i'r ysgol sydd yn ymweld yn y nos.

Ond y prif reswm yw ni, y disgyblion! Fe ddylen ni ein hunain ddatrys y broblem.
**Lowri Miles, Lisa Horne, Emma Watt**


*Y Cynghorydd Christine Priday yn cyflwyno dau fin sbwriel newydd i'r ysgol fel rhan o ymgyrch Eco-Ysgolion*

Datganiad Eco-Ddull Ysgol Glantaf:
1. Byddwn yn rhoi ein holl sbwriel mewn bin;
2. Os na fydd bin, byddwn yn mynd â'n sbwriel adre gyda ni;
3. Byddwn yn rhoi pob can alwminiwm a ddefnyddir yn yr ysgol yn y banc ailgylchu.

## Mega yng Nglantaf

Mega! Y gair i ddisgrifio'r cantorion pop mwyaf poblogaidd yng Nghymru ers Dafydd Iwan. Cafodd Ysgol Glantaf y fraint o weld perfformiad gwych gan y pedwarawd golygus a thalentog yr wythnos ddiwethaf. Roedd cyffro yn y coridorau a'r disgwyliadau yn uchel wrth i'r band agor y gyngerdd gyda'r hen ffefryn 'Meganomeg'. Gwylltiodd y dorf (yn enwedig yr athrawon a'r 6ed). Ni welwyd y fath hysteria yn hanes yr ysgol; prynhawn llwyddiannus a gafwyd, a phawb yn mwynhau. Gobeithiwn weld Mega unwaith eto yn dychwelyd i Lantaf, a hoffem ddiolch iddynt am eu perfformiad. Dymunwn bob lwc i Mega yn y dyfodol.
**Gareth Stewart, Daniel Salter, Gareth Jones, Jenny Heap**

## Rygbi



Llongyfarchiadau mawr i Elgan Jones, Nicky Robinson a Geraint Williams ar gael eu dewis i ymuno â charfan rygbi ysgolion Cymru o dan 18 oed.

## Siarad Cyhoeddus

Llongyfarchiadau i dîm siarad cyhoeddus Glantaf ar ennill rownd gyntaf Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Rotari. Enillodd Mari Osborne y wobr am gynigydd y noson, Jenny Heap am wrthwynebydd y noson a Hannah Jones am gadeirydd y noson. Pob hwyl iddynt yn y rownd nesaf yn y flwyddyn newydd, yn erbyn ysgolion y gorllewin.

## Losin i Rwmania

Eleni eto bu disgyblion Glantaf yn ymwrthod â'r demtasiwn o fwyta Mars, Milky Way... na, nid er mwyn colli pwysau, ond er mwyn eu hanfon i blant llai ffodus Rwmania. Cafwyd ymateb gwych a bu aelodau o'r Clwb Cristnogol ac eraill yn lapio'r losin yn barseli bach i'w hanfon ddechrau mis Rhagfyr gyda'r elusen 'Support For Romania'. Hwyrach mai dyma'r unig anrheg y bydd rhai o'r plant yn ei derbyn.

# YSGOL PLASMAWR

## Taith Barcelona

*Yn ystod gwyliau'r hanner tymor aeth taith Cerdd a Drama i Sbaen. Dyma adroddiad Owain Simpson (Bl. 10) o'r daith:*

O'r diwedd, am un ar ddeg o'r gloch ar fore Llun, 24 Hydref, dyma ni'n gadael Caerdydd a dechrau ar ein taith i Barcelona. Cwys cyntaf y daith oedd cyrraedd Gatwick ac yna hedfan oddi yno i Reus. Taith tair awr oedd hi i Platja D'Aro - ein cartref am y dyddiau nesaf. Mwynhaodd pawb y gweithdai oedd wedi eu trefnu ar ein cyfer yn ystod yr wythnos. Cawsom gyfle i feimio, llafarganu a pherfformio'r hyn roeddem wedi ei ddysgu ar ddiwedd y daith. Er ein bod wedi gweithio fe gawsom gyfle hefyd i ymweld â Barcelona. Diddorol oedd gweld yr eglwys S'Agrada di familia ac roedd y stadiwm Nou Camp a'r dref Olympaidd o ddiddordeb mawr i'r dilynwyr chwaraeon. Ymwelwyd hefyd â Las Ramblas a Platja d'Aro yn ogystal â 'Magic Park'. Yn ddi-os fe wnaeth pawb fwynhau'r daith er ein bod oll wedi blino'n lân.

## Disgyblion yr ysgol yn teimlo'n hen

Ddydd Llun, 22 Tachwedd, cafodd rhai disgyblion Blwyddyn 8 gyfle i brofi'r anawsterau y mae'r henoed yn eu hwynebu mewn prosiect ar y cyd rhwng 'Help the Aged' a Nwy Prydain. Treuliodd y disgyblion fore cyfan yn profi'r problemau anabledd a golwg sy'n taro pobl yn eu henaint. Roedd yn gyfle gwych i'r disgyblion gydymdeimlo â'r henoed ac i ddod â'r problemau maent yn eu hwynebu yn real iddynt. Yn sicr roedd yn brofiad gwerthfawr i bontio'r berthynas rhwng yr henoed a'r ifainc.

## Chwaraeon Plasmawr

Ar y caeau rygbi mae Bl. 7 wedi cael mis cymysg drwy ennill gemau yn erbyn St Illtud, Llanhari a Cantonian, ond yn colli yn erbyn Glynderw a'r Barri. Gwelodd Bl. 8 welliant gyda buddugoliaeth dda yn erbyn St Illtud. Mae Bl. 9 drwodd i rownd nesa'r cwpan wedi maeddu Cathays, tra gwnaeth bechgyn Bl. 10 chwarae'n arbennig o dda mewn gêm gyfartal gydag Ysgol Glyn Derw.

Ar y caeau pêl-droed, Bl. 9 sy'n arwain y ffordd gyda buddugoliaeth wych yn erbyn Glyn Derw o 6 gôl i 1. Er gwaethaf eu perfformiadau da nid yw Bl. 7, 8 a 10 wedi bod mor llwyddiannus yn ystod y mis diwethaf!

Ar gyrtiau pêl-rwyd mae Bl. 9 wedi ennill eu gemau diweddaraf yn erbyn Glantaf (22 - 15) a'r Eglwys Newydd (12-8). Enillod Bl. 8 yn erbyn Radyr (9-7). Er bod Bl. 7 wedi bod yn chwarae'n gyson nid ydynt eto wedi profi buddugoliaeth.

Cynhaliwyd Cystadleuaeth Nofio'r Urdd ar 23 Tachwedd. Llongyfarchiadau i Siriol Dafydd a ddaeth yn fuddugol yn y 100m Broga i Flynyddoedd 7 ac 8.

## Gwasanaeth Nadolig

Bydd Gwasanaeth Nadolig yr ysgol yn cael ei gynnal yng Nghapel y Crwys, Richmond Road ar 15 Rhagfyr am 6 o'r gloch. Croeso i bawb.

## Newidiadau yn HTV

Llongyfarchiadau mawr i Menna Richards, Rheolwr Gyfarwyddwr HTV Cymru, ar gael ei phenodi'n Rheolwr BBC Cymru, i olynu Geraint Talfan Davies. Brodor o Faesteg yw Menna, ac y mae'n byw erbyn hyn yn yr Eglwys Newydd. Cafodd yrfa lwyddiannus iawn yn ystod ei 15 mlynedd yn HTV a dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd allweddol.


*Dafydd Llŷr James*

Llongyfarchiadau hefyd i Dafydd Llŷr James ar gael ei benodi i swydd newydd Pennaeth Rhaglenni Nodwedd HTV. Brodor o Gwmafan ger Port Talbot yw Dafydd, sy'n 40 oed. Wedi cyfnod fel cysodydd yn y diwydiant argraffu ac yna'n fyfyriwr yng Ngholeg Harlech ac yn y Brifysgol yn Aberystwyth, bu'n ddarlithydd hanes a gwleidyddiaeth mewn colegau ym Merthyr Tudful a Chastell-nedd ac yn ymchwilydd yn yr Amgueddfa Diwydiant a Môr cyn symud i fyd darlledu yn 1989. Ar hyn o bryd mae'n gynhyrchydd/gyfarwyddwr gyda BBC Cymru. Mae'n byw yn Llandaf gyda'i wraig, Kerry, a'u tri phlentyn.

## EGLWYS Y CRWYS

Yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd cafodd aelodau y capel gyfle i fwynhau dwy arddangosfa fechan, un a drefnwyd i ddathlu pen-blwydd *Y Gadwyn* yn hanner cant oed; a'r llall i ddynodi dyfodiad cystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd i Gymru. Trefnwyd y naill gan Aled a Barbara Evans a'r llall gan aelodau o'r Gymdeithas Ddrama.


Prynhawn dydd Mercher, 3 Tachwedd, cafodd y Froderfa gyfle i wrando ar y Dr Ann Lloyd-Jones, yn sôn am ei phrofiad yn gweithio yn un o bentrefi 'Plant yr Enfys' yn Cape Town, De Affrica. Cafodd Cylch y Chwiorydd brynhawn difyr yn gwrando ar Menna Gwyn yn olrhain hanes a gwaith yr arlunydd o Iddewes, Charlotte Salamon.

Yng ngwasanaeth bore Sul, 7 Tachwedd, o flaen cynulleidfa niferus, dadorchuddiwyd darllenfa i goffáu Mr Alun Rowlands, blaenor yn yr eglwys ac yn yr enwad am nifer fawr o flynyddoedd. Yn y prynhawn daeth cynulleidfa luosog ynghyd i gyd-ganu rhai o emynau'r *Atodiad*, mewn Cymanfa Ganu a drefnwyd gan yr Henaduriaeth. Dr Dewi Lewis oedd wrth yr organ a'r arweinydd gwadd oedd Robert Nichols.

Cyfarfu Grŵp y Merched nos Lun, 8 Tachwedd, i wrando ar Eulonwy Jones yn traddodi anerchiad difyr a grymus ar waith a bywyd y cerddor Mozart. Mae rhaglen y Gymdeithas ddiwylliannol yn parhau i roi blas ar y gaeaf. Nos Wener, 12 Tachwedd, daeth y ddau frawd Wynford ac Arwel Ellis Owen i'r theatr i roi noson hwyliog a difyr i'r aelodau. Gweithiodd y ddau gyda'i gilydd i gyflwyno rhaglen o lun, cân a dweud. Talwyd gair o ddiolch gan Gareth Williams.

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## Pêl-droed



Ydi pethau yn dechrau gwella?
Mae hen ddihareb Gymraeg yn dweud:

Po dywyllaf yr awr
Agosaf i gyd ydyw toriad gwawr.

Ond mae'n amheus a yw hyn yn gwbl wir am dîm Caerdydd ar ôl chwarae 18 gêm yn y Cynghrair. Ar ôl cyfnod arswydus o ddiffrwyth o 12 gêm (9 gêm cynghrair a 3 gêm yng Ngwpanau Cymru a Lloegr) pan enillwyd ond un ohonynt, mae 'na lygedyn bach o obaith fod pethau yn dechrau gwella. Yn eu tair gêm ddiwethaf trechwyd Leyton Orient (mewn gêm ailchwarae Cwpan Lloegr) o 3-1, Chesterfield yn y Cynghrair o 2-1, ac yna Colchester 3-0 yn y Cynghrair, gyda'r chwaraewr newydd, Richie Humphreys, blaenwr ar fenthyg o glwb Sheffield Wednesday, yn sgorio dwy o'r goliau. Er hynny, mae'n amlwg i bob cefnogwr fod angen tocio ac angen gwaed newydd i'r tîm. Ar yr un pryd mae hefyd yn amlwg fod arian yn brin.

Efallai mai dyma'r rheswm pam mae dau chwaraewr wedi eu rhyddhau, sef Dai Thomas, blaenwr a gafodd ddigon o gyfle i brofi ei allu ond "fe'i cafwyd yn brin", a Lee Jarman, canolwr ifanc addawol iawn na chafodd y cyfle a ddylsai fod yn ddyledus iddo. Mae'r ddau yn chwilio am glybiau newydd.

Mae chwaraewr newydd arall hefyd ar ei ffordd i Gaerdydd sef Jon Schwinkendorf o Mannheim (Yr Almaen) - canolwr 6 throedfedd 5 modfedd o daldra, ac nid yw'r clwb wedi rhoi'r gorau i bob gobaith am arwyddo Tony Vaughan (sy ar fenthyg o Manchester City) - canolwr cadarn ac effeithiol iawn. Ac mae'r gobaith yn parhau am arwyddo'r blaenwr, David Paas o Harebbeke, Gwlad Belg. Mae'n rhaid parchu gallu Frank Burrows, y rheolwr, sy wedi ymestyn ei gytundeb â'r clwb, i bwyso a mesur chwaraewyr. Mae'i record yn hyn o beth yn hynod effeithiol.

Mae tair gêm cynghrair anodd o'u blaen cyn y Nadolig - Gillingham a Bryste (gartre) a Millwall (oddi cartre). Buasai 6 phwynt o'r tair gêm yn fwy na derbyniol.

Ar faes ehangach - mae'n ymddangos fod Mark Hughes ar fin cael ei benodi'n rheolwr tîm Cymru am y tair blynedd nesaf. Ond tybed a oes amheuaeth bellach gan fod cryn gefnogaeth ymhlith rhengoedd Cymdeithas Pêl-droed Cymru i John Toshack a ddiswyddwyd fel rheolwr Real Madrid? Fe allai fod yn sefyllfa ddiddorol iawn. Pa un bynnag a ddewisir, 'does dim amheuaeth fod tasg enfawr o'i flaen i godi'r safon a gwella canlyniadau'r tîm cenedlaethol.

**Howard Spriggs**

## "Capital Rugby"

Ychydig iawn a wyddwn i am y gyfundrefn hon yn ein prifddinas, hyd nes i mi gael yr hanes gan John Huw Williams, ei chyfarwyddwr. Fe'i cofiwch yn asgellwr chwimwth i glwb Caerdydd wedi iddo ymadael â Choleg Cyncoed; brodor o Ystalyfera ac athro ar hyd ei yrfa yn Ysgol St Cyres, Penarth; hyfforddwr Tîm Ysgolion Cymru (Adran Hynaf) rhwng 1976 a 1990, gan gynnwys y garfan a ymwelodd â Seland Newydd yn 1990. Curodd Cymru'r Crysau Duon y flwyddyn honno o 17-11, a dyna oedd uchafbwynt gyrfa John Huw'n sicr - yr unig dîm o'n gwlad i wneud hynny erioed o unrhyw oedran.

Gyda'r cyfarwyddwr, a ddechreuodd yn Nhachwedd 1998, mae tri swyddog datblygu, sef Selwyn Wyatt, Mark Ring a Mal Scott (rhan-amser). Mae 70 o ysgolion cynradd yn y gyfundrefn, a'u nod yw cael 92 ysgol erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r swyddogion hyn yn rhoi pedair wythnos o hyfforddiant i bob un ysgol y tymor hwn, a phedair wythnos rhwng Ionawr a Mehefin y flwyddyn nesaf, os bydd gofyn, ac maen nhw'n cyfrannu at hyfforddi tîm Ysgolion Caerdydd. Mae llawer o sôn bellach am baratoi ar gyfer Cwpan y Byd ymhen pedair blynedd - ped âi pob rhanbarth ati â'r fath drefn ac egni â'n prifddinas, yna'n sicr dangosid gwelliant mawr yng nghanlyniadau timau rhyngwladol y wlad. Un awgrym, John Huw - mae gwir angen enw Cymraeg ar eich cyfundrefn.

## Cwpan Ewrop

Wedi rhialtwch Cwpan y Byd - a'r siom fawr ar y cae - try'r genedl at Gwpan arall, i'r clybiau'r tro hwn - Cwpan Ewrop. Y mae gennym bum clwb yn y Cwpan, y brif gystadleuaeth, a phump yn y Darian, a chafwyd dechrau gwael iawn benwythnos cyntaf y Rownd Ragbrofol, gan ennill tair gornest yn unig o'r deg, ag un yn gyfartal. Collodd Llanelli yn Llundain yn erbyn y Wasps, Pontypridd yn erbyn Talaith Munster yn Limrig, a Chastell-nedd yn Northampton; enillodd Abertawe gartref yn erbyn Padova'n hawdd yn ôl y disgwyl, ond siomodd Caerdydd eu saith mil o gefnogwyr wrth fethu ennill gartref yn erbyn Harlequins ar ôl bod ar y blaen o 16 pwynt i ddim ddeng munud cyn yr hanner.

Yn yr hanner awr gyntaf chwaraeasai Caerdydd yn dda dros ben, gan greu cyfleon lawer pan fylchai Gareth Thomas a Leigh Davies dro ar ôl tro yng nghanol cae. Diffygion amlwg ymysg eu blaenwyr fu'n bennaf gyfrifol am eu haflwyddiant, ac nid oedd y dyfodol y nos Wener honno'n addo gobaith mawr.

Yn y Darian collodd Casnewydd yn Bedford, Caerffili gartref yn erbyn Pau, a Dyfnant yn Aurillac; enillodd Glynebwy a Phen-y-bont gartre'n erbyn Connacht a Sbaen. Yn y deg gornest sgoriwyd 27 o geisiadau ac ildio 30, ond daeth naw o'r rheiny ar Sain Helen lle'r trechodd Abertawe'r Eidalwyr. Digalon.

## Prifathro a phêl-droediwr




Dr Dylan Jones fydd prifathro cyntaf Ysgol Gyfun Bro Morgannwg a fydd yn agor ei drysau ym Medi 2000 yn y Barri. Bydd yn symud o'i swydd bresennol, sef prifathro Ysgol Gyfun y Cymer, Rhondda yn Ionawr. Pan benodwyd ef i'r swydd honno, ef oedd y prifathro ysgol uwchradd ifancaf yng Nghymru. Astudiodd hanes ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth cyn mynd yn bennaeth adran i Ysgol Gyfun Gŵyr, ger Abertawe. Aeth oddi yno i Ysgol Gyfun Llanhari cyn mynd yn ddirprwy brifathro yn Ysgol Gyfun Rhyd-y-waun, Aberdâr. Bu unwaith yn bêl-droediwr medrus ac yn gapten ar dîm myfyrwyr prifysgol Cymru a bu'n chwarae i dre'r Barri. Bydd tua 150 o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol hon ac erbyn 2005 disgwylir y bydd 1,300 ynddi. Daw Dr Jones o Dywyn ac mae'n briod a chanddo ddau o blant. Mae'n byw yn y Bont-faen.

## Ar y CYD... yng ngofal Lynne Davies




Rwy wedi bod yn clirio dail o'r ardd yn ddiweddar. Rydyn ni wedi cael crop toreithiog y flwyddyn hon. Mae 12 bag du wedi'u llenwi yn barod, ac mae llwyth yn aros ar y goeden drws nesa' i ddisgyn ar fy lawnt i. A phob tro rwy wedi gorffen a chael y lawnt yn daclus, dyma'r gwynt yn codi a nhw'n dechrau chwyrlïo o gwmpas fel tasai'n bwrw creision ŷd (i ddefnyddio delwedd wych Mihangel Morgan yn *Melog*).

Ac mae hynny'n fy atgoffa i, mae'n rhaid meddwl am lyfrau'r 'Dolig. Mae gan Siôn Corn gyfrif ym mhob siop llyfrau Cymraeg yng Nghaerdydd, ac mae llyfr yn ffitio'n dda mewn hosan. Ga' i awgrymu un neu ddau (neu dri).



Mae llyfrau yn arbennig i ddysgwyr, ac mae rhai o'r rhain yn werth eu darllen (e.e. y talfyriadau o nofelau yng nghyfres Gwasg Gomer, 'Cam at y Cewri') ond mae'n well 'da fi symud cyn gynted â phosibl at y llyfrau "go iawn". Mae straeon byrion wastad yn lle da i ddechrau, ac mae cyfrol *Goreuon y Ganrif* (Gwasg Gomer) wedi'i golygu gan Christine M. Jones, sydd wedi dethol storïau gan amrywiaeth o awduron gan gynnwys Islwyn Ffowc Elis, Kate Roberts a John Gwilym Jones, yn un ardderchog, a geirfa ar waelod pob tudalen. Mae hefyd gyfrolau gwych gan bobl fel Eleri Llewelyn Morris (*Straeon Bob Lliw*) a Mihangel Morgan (*Hen Lwybr, Te Gyda'r Frenhines*, ac un newydd sbon, *Y Corff yn y Parc*). Os ydych chi eisiau nofel, rhai sydd heb fod yn rhy anodd ond yn werth eu darllen, beth am *Blodyn Tatws* (Eurig Wyn), *Y Dylluan Wen* (Angharad Jones) a rhai ychydig yn fwy fel *Y Stafell Dirgel* (Marion Eames) a *Semtecs* (Geraint V. Jones) ac, wrth gwrs, *Melog* (Mihangel Morgan)?

Mae'n werth edrych ar gyfres *Pigion 2000* Gwasg Carreg Gwalch hefyd. Erbyn y flwyddyn 2000, bydd 20 o gyfrolau bach sy'n rhoi blas ar bob math o lenyddiaeth Gymraeg. Maen nhw'n rhad ac yn gyflym i'w darllen - gwnewch yn siŵr bod un neu ddwy yn eich hosan. Nadolig Llawen a Mileniwm Newydd Da!

**Geirfa**
crop toreithiog - *bumper crop*
llwyth - *load*
disgyn - *to fall/descend*
creision ŷd - *cornflakes*
cyfrif - *account*
hosan - *stocking*
awgrymu - *suggest*
cyfrol - *volume*
dethol - *select*
amrywiaeth - *variety*

### Digwyddiadau CYD
Dydd Llun ola'r mis - Pen & Wig, 1.00 - 2.00
Nos Fercher - Tafarn y Tavistock, Stryd Bedford - 9.00
Nos Iau - Gwesty Parc y Rhath, Lôn y Plwca (*City Rd*) - 9.00
Dydd Gwener - Y Bont-faen, Tafarn y Dug - 12.00
*Am fanylion pellach ffoniwch Padi Phillips - 01222 312293*

---

### I Gwyndaf Breese
### Crefftwr, hanesydd a chyfaill

Brodor o Aberangell, Meirionnydd. Penodwyd yn brentis turniwr yn Amgueddfa Werin Cymru, Rhagfyr 1952. Ymddeolodd 30 Hydref 1999. Dymunwn iddo iechyd a phob llawenydd.

Dewin o grefftwr diwyd; — Ifor Hael
A ŵyr werth celfyddyd;
Hyfwyn ymchwiliwr hefyd;
Gwyndaf wyt, a gwyn dy fyd.

**Robin Gwyndaf**



*Llun trwy garedigrwydd Amgueddfa Werin Cymru*

### Plygain yn yr Amgueddfa Werin

Sir Drefaldwyn yw cartref traddodiadol y Plygain; cynhelid ef yn oriau mân bore dydd Nadolig a'r bobl fel arfer yn aros ar eu traed gan dreulio'r nos yn addurno'r tŷ. A dyma'r pentref yn dod ynghyd, yn bartïon ac unigolion, a'r hen alawon yn seinio'n ddigyfeiliant ar eiriau a gyfansoddwyd yn aml gan feirdd lleol. Roedd holl fywyd ein Harglwydd yn destun y carolau.

Ceir tystiolaeth o wasanaethau Plygain ar Ynys Môn hefyd ers yr ail ganrif ar bymtheg, a chasglodd John Owen, Dwyran y carolau hynaf sydd ar glawr. Mae llawer ohonynt yn hanu o leiaf o'r 16ed ganrif a throsglwyddwyd hwy ar lafar. Bydd rhai ohonynt yn atseinio yng Nghapel Pen-rhiw, Amgueddfa Werin Sain Ffagan ar yr hen Nos Galan 2000, 6 Ionawr, am 7.00 y.h.

Bydd cyfle i'r gynulleidfa hefyd ganu rhai o'r hen garolau yr ydym wedi mynd yn ail-gyfarwydd â hwynt yn y blynyddoedd diwethaf. Dewch yn llu i roi lle i wir draddodiad Cymreig ymhlith holl ddathliadau'r mileniwm.

**Efa Wulle**

**Bydd adroddiad am ail Eisteddfod Flynyddol Sain Ffagan yn y rhifyn nesaf.**

# Gwasanaeth Plygain

Capel Penrhiw,
Amgueddfa Werin, Sain Ffagan

6 Ionawr 2000 am 7.00 y.h.

**Gwasanaethir gan Y Parch. Evan Morgan**

**gyda chyfraniadau o alawon o'r 16ed ganrif a geiriau a gedwir yng nghasgliadau'r Amgueddfa**

Croeso cynnes i bawb

# TRYDANWR

**gyda dros 20 mlynedd o brofiad**

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch

**Caerwyn Davies**

ar **01222 868208**

neu **0468 973229**

## PROBLEMAU FFENESTRI?

*Pam talu am ffenestri newydd pan allwn ni drwsio'r rhai sydd eisioes gennych?*

Does dim un jobyn yn rhy fach

*Amcangyfrifon am ddim heb unrhyw oblygiadau*

Gwasanaeth cyfeillgar gan fusnes teulu sydd wedi bodoli ers 20 mlynedd

THE *Original* WINDOW DOCTOR
01222 488214

*Am wasanaeth Cymraeg gofynnwch am Sarita*

# CIG EIDON DU CYMREIG

***Cig o ansawdd wedi ei gynhyrchu'n naturiol***

**Gwartheg Duon Cymreig**
**Brid Cynhenid Cymru**

Hefyd ar gael – **Cig Oen Cymreig**
Medrwch bwrcasu naill ai oen cyfan neu hanner oen.

*Cysyllter â:*

**Rowland a Janice Rees**
Fferm Brysgaga, Bow Street, Ceredigion.
**Ffôn: 01970 828287**

CIG EIDION DU CYMREIG




## FFRINDIAU'R URDD

**YR ANRHEG NADOLIG DELFRYDOL**

***Llety penwythnos am ddim!***
***mewn dewis o westai moethus****

Wrth ymuno yng nghynllun Ffrindiau'r Urdd cewch lu o fanteision amrywiol megis:

- £10 i ffwrdd o dâl gwyliau teulu yng ngwersylloedd yr Urdd
- Taleb 2 am bris 1 ar dâl mynediad i faes yr Eisteddfod
- Taleb llety penwythnos **am ddim** mewn dewis o westai moethus o amgylch Prydain* (*mae'r daleb yma werth o leiaf £150, yr unig beth fydd angen talu amdano fydd prydau bwyd)

ynghyd â llu o freintiau eraill, a gwybodaeth gyson ynglyn â'r Urdd. Os penderfynwch ymaelodi â'r cynllun yma, gallwch anfon y bonyn isod ynghyd â siec o £20, ond byddai'n fanteisiol i'r Urdd pe baech yn cyfamodi â'r Urdd, a thalu drwy archeb banc yn flynyddol - ceir manylion oddi wrth: Ffrindiau'r Urdd, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1EN neu ar y wê: www.urdd.org

✂.................................................................

Rwyf am ymaelodi gyda Ffrindiau'r Urdd ❑

Dymunaf dderbyn rhagor o wybodaeth am Ffrindiau'r Urdd ❑

Enw:.................................................................

Cyfeiriad:.................................................................

................................................ Côd post ................................

Rwy'n amgáu siec o £20 ❑ Yn daladwy i: Urdd Gobaith Cymru

Beth am anfon copi o'r *Dinesydd* yn anrheg i rywun ar hyd y flwyddyn nesaf?

Llenwch y ffurflen ar dudalen 2.



# Stiwdio Sioned

Salon Harddwch
Clinig Adweitheg (Reflexology)

**Sioned Bowen Davies**
*I.H.B.C. City & Guilds, I.F.R.*

***Cynnig Arbennig tan ddiwedd Ionawr 2000***
***Indian Head Massage***

59b Heol Merthyr, Eglwys Newydd,
Caerdydd. CF14 1DA
Ffôn: 01222 694193

# REES WOOD a TERRY

A ydych chi wedi cael
**damwain?**

Efallai y gallwch hawlio
**iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf
**yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222

Plaid Cymru Cangen Gwenfo

**DAFYDD DWY FIL**
sef
**cyngerdd olaf**

**DAFYDD IWAN a'r Band**
yng Nghaerdydd y Mileniwm hwn

**Nos Sadwrn 11 Rhagfyr 1999**
**CLWB IFOR BACH - 8.00 p.m.**

Tocynnau - £15 yr un
Myfyrwyr a'r di-waith - £8

NI FYDD TOCYNNAU AR WERTH WRTH Y DRWS - ARCHEBWCH DOCYN AR UNWAITH RHAG I CHI GOLLI'R CYNGERDD HANESYDDOL A CHOFIADWY HWN.
Y CYNTAF I'R FELIN . . .

